| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | Gwasanaeth Dosbarth Cyfan |
| Disgrifiad: | Tywydd Gaeafol - meddwl am yr hwyl y gallwn ei gael yn yr eira, y peryglon a ddaw yn ei sgil a sut gallwn helpu ein gilydd. |
| Blynyddoedd: | Ysgol gyfan |
| Testun: | 'Nadolig Plentyn yng Nghymru' |
| Offer angenrheidiol: | Copi o 'Nadolig Plentyn yng Nghymru'<br>Dewisol: lluniau ychwanegol i'w rhannu gyda'r dysgwyr yn dangos peryglon a thrafferthion tywydd gaeafol, e.e. aderyn mewn gardd ag eira, person hŷn ar balmant rhewllyd, car ar ffordd rewllyd. |
| Dull a awgrymir: | Dangoswch glawr y llyfr a holi cwestiynau amdano.<br>Pa dymor sy'n yw hi yn y llun?<br>Beth mae'r plant yn ei wneud?<br>Beth maen nhw'n ei wisgo?<br>Pam maen nhw'n gwisgo dillad cynnes?<br>Fedrwch chi weld pwy ysgrifennodd y llyfr?<br><br>Esboniwch fod Dylan Thomas yn awdur Cymraeg enwog a bod Edward Ardizzone wedi tynnu'r lluniau sawl blwyddyn ar ôl i'r testun gael ei awduro.<br><br>Gofynnwch pwy sy'n hoffi tywydd gaeafol a pham. Caniatewch amser i drafodaeth fan hyn.<br>Efallai fod y dysgwyr yn credu bod yr eira yn gwneud i'r amgylchedd edrych yn brydferth.<br>Ydyn nhw'n hoffi sledio, taflu peli eira, adeiladu dynion eira neu sglefrio ar yr iard?<br>Dyma gyfle i drafod diogelwch a phwysigrwydd gwisgo'n gynnes.<br><br>Gofynnwch i'r dysgwyr pwy, efallai, sydd ddim yn hoffi tywydd gaeafol ac eira.<br>Opsiynol: dangoswch y lluniau o drafferthion a pheryglon y gaeaf.<br><br>Gallech awgrymu<br>- gyrwyr, oherwydd bod eira a rhew'n gallu gwneud gyrru'n beryglus.<br>- adar, oherwydd ei bod eira a rhew'n gallu ei gwneud hi'n anodd iddynt gael gafael ar fwyd. |

| | |
|---|---|
| | - pobl hŷn, oherwydd ei bod hi’n gallu bod yn llithrig dan draed.<br>- pobl hŷn, a allai ei chael hi'n anodd cadw'n gynnes yn y gaeaf.<br><br>Holwch sut gallwn ni helpu eraill.<br><br>Awgrymwch roi bara yn yr ardd i fwydo'r adar.<br>Awgrymwch sut gallwn, gyda chymorth oedolion, gynorthwyo pobl hŷn yn ein cymdeithas neu berthnasau hŷn, e.e. mynd i siopa yn eu lle os yw'r palmentydd yn rhewllyd. |
| Gweddi: | Diolch, Arglwydd am y tymhorau a'r amrywiaeth fendigedig o dywydd sy'n dod gydag ef.<br>Gad i ni fwynhau chwarae yn yr eira ond atgoffa ni i gymryd gofal pan fydd y tywydd yn gwneud y strydoedd a'r palmentydd yn rhewllyd a llithrig.<br><br>Cynorthwya ni i fod yn garedig i'r adar ac anifeiliaid sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar fwyd yn y tir rhewllyd.<br><br>Atgoffa ni fod ar hen bobl angen ein cymorth a chynorthwya ni i'w cadw’n gynnes a diogel yn y gaeaf.<br><br>Amen. |

** Mae’r gwasanaethau yma yn addas ar gyfer eu defnyddio mewn gwersi hefyd*